Mumbles Community Council

Minutes of Culture, Tourism and Communications Committee

Held on Wednesday, 22 July 2026 at 6.30pm at the Ostreme Centre and via Teams

Councillors Present: Cllrs. Rob Marshall (Chair), Richard Jarvis, Helen Nelson, Tim Zhou and David Lewis.

Officers Present: Ian Hughes - CSO

CT2607-01	**Apologies for Absence** Cllrs Laura Gilbert and Martin O'Neill
CT2607-02	**Declarations of Interest** As a member of Mumbles Yacht Club (Rowing Section), Cllr Jarvis declared a personal interest in relation to agenda items 11.
CT2607-03	**Minutes of the Previous Meeting of the Committee** To approve the minutes of the meetings held on 24 June 2026 as a true record. **RESOLVED:** to approve the meeting minutes held on 24 June 2026 as an accurate record.
CT2607-04	**Update on actions from previous meetings.** The CSO updated the committee on all outstanding actions which had previously been circulated by him to committee members. **RESOLVED:** Outstanding actions to be updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions
CT2607-05	**Elect Vice Chair for Committee** **RESOLVED:** to defer appointment until September's Committee Meeting when any potential candidate should be present. **ACTION;** CSO to write to all Councillors on the Committee seeking nominations for post of Vice-Chair prior to September's Meeting.

CT2607-06	**Recommendations for Co-Opted Committee Members** The CSO had written to both Mike Eames and Pip Reason seeking their views on continuing as co-opted members of the committee. Mike Eames wishes to continue as a co-opted member, and Pip Reason wishes to withdraw from the role due to other commitments **RESOLVED** Mike Eames' appointment as a co-opted member to be verified at the next meeting of Full Council
CT2607-07	**Folk Festival Update** Due to the sensitive nature of the update to be provided by Cllr Jarvis in relation to the organisation of the event, it was proposed to provide an update in closed session. **RESOLVED:** To defer the update by Cllr Jarvis until the committee is in 'closed session' at 6.58pm Whilst in closed session Cllr Jarvis provided an update on the Folk Festival to be held over the weekend of 2nd to 4th October 2026. Cllr Jarvis confirmed that the bands had been booked
CT2607-08	**Mumbles Tourism Update** The Chair, Cllr Marshall updated the committee on the Mumbles Life grant application aimed at providing a website for tourists and local residents, intended to assist local businesses. The CO is currently reviewing the opinions of Councillors before progressing the grant application. Cllr Marshall encouraged all Councillors to provide comments/views on the proposed website to The CO,.
CT2607-09	**Breast Cancer Awareness** The Chair, Cllr Marshall updated the Committee that it had been agreed to use the Ostreme's outside lighting with the appropriate colour to mark the forthcoming breast cancer awareness event.

Mumbles Community Council

CT2607-10	**Toy and Toast Event** The Chair, Cllr Marshall updated the committee on behalf of The CO, informing them that the Toy and Toast Event continues to grow in popularity. Cllr Marshall noted the continued use of The Hub for events.
CT2607-11	**RNLI Raft Race and Sea Shanty Festival 2027 updates** Cllr Jarvis had provided a report on both the Raft Race and Sea Shanty Festival to committee members prior to the meeting. In addition, Cllr Jarvis included details of the RNLI singers in his report. Prior to outlining key aspects of his report Cllr Jarvis reminded the committee of his personal interest in the agenda item through his membership of Mumbles Yacht Club Rowing Section. Cllr Jarvis has been in liaison with the RNLI and a date for the 2027 Raft Race will not be set until the autumn of 2026. Cllr Jarvis proposed how a Sea Shanty event may compliment the raft race and how fund raising around both events could be enhanced through the efforts of MCC. This included providing live acts such as Captain's Cat and the Sailors. During the discussion a number of suggestions were made including sea food and cider being provided. All committee members were enthusiastic about the events, and it was agreed that all ideas should be forwarded to Cllr Jarvis who will continue to liaise with the RNLI and bring together the ideas at September's Meeting. In addition, the committee would benefit from the input of Cllr Thomas at the next meeting. **ACTION** CSO to invite Cllr Thomas to September's Meeting in order for him to provide an input on the events. **RESOLVED** Cllr Jarvis to provide further update at September's Meeting.
CT2607-12	**Christmas Event 2026 (including lighting)** The Chair, Cllr Marshall updated the committee on behalf of The CO, informing them that Christmas plans are underway with Santa being booked for the Christmas Grotto at Ostreme on 19th December 2026, further information to follow. Three of the seven schools have responded in relation to participating in the lantern parade. Land train to be booked within the next week. Following the committee's approval of the Christmas Budget no further events can be added.

CT2607-13	**Date for Mumblesfest 2027 to be decided and approval to be obtained to commence bookings** The Chair, Cllr Marshall stated that whilst a budget for MumblesFest 2027 has yet to be approved there is a budget within the existing MumblesFest 2026 Budget although some of this funding has been reallocated to the Wellbeing Festival being held at Underhill Park in September 2026. Whilst it had been intended to confirm a date for MumblesFest 2027, Councillors wanted to ensure that the event did not clash with any other event taking place in Swansea. **RESOLVED**; To postpone a date being set for MumblesFest 2027 until September's Meeting, pending confirmation that any proposed date will not clash with another major Swansea event.
CT2607-14	**Exclusion of Press and Public** Following the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following item of business due to the confidential nature of the business to be transacted. **RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting. The recording of the meeting was stopped at 6.58pm
CT2607-15	**Future Events** As outlined at CT2607-07 the Folk Festival in October was discussed. A photographic competition (Essence of Mumbles) to be held in 2026 Cllr Marshall paid tribute to Bonnie Tyler and hoped that her funeral procession in Newton Road will be well attended in August 2026. Options were considered to remember Bonnie but the consensus of the committee was that a suitable period of time should pass before any firm commitments are proposed.

The meeting ended at 7.09pm.

Next Meeting Wednesday 23rd September 2026 at 2.00pm

Mumbles Community Council

Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu

a gynhaliwyd nos Fercher 22 Gorffennaf 2026 am 6.30pm yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Microsoft Teams

Cynghorwyr yn bresennol: Y cynghorwyr Rob Marshall (Cadeirydd), Richard Jarvis, Helen Nelson, Tim Zhou a David Lewis.

Swyddogion yn bresennol: Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2607-01	**Ymddiheuriadau am absenoldeb** Y cynghorwyr Laura Gilbert a Martin O'Neill
CT2607-02	**Datganiadau o fuddiant** Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Jarvis gan ei fod yn aelod o Glwb Hwylio'r Mwmbwls (yr adran rhwyfo), mewn perthynas ag eitem 11 ar yr agenda.
CT2607-03	**Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 fel cofnod cywir.
CT2607-04	**Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol** Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a ddosbarthwyd ganddo i aelodau'r pwyllgor ymlaen llaw. **PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a'u dangos fel rhai wedi eu cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.
CT2607-05	**Ethol is-gadeirydd y pwyllgor**

	PENDERFYNWYD: Gohirio'r penodiad tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Medi, pan ddylai unrhyw ddarpar ymgeisydd fod yn bresennol. **CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i ysgrifennu at bob cynghorydd ar y pwyllgor yn gofyn am enwebiadau ar gyfer swydd yr is-gadeirydd cyn y cyfarfod ym mis Medi.
CT2607-06	**Argymhellion ar gyfer aelodau cyfetholedig y pwyllgor** Roedd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau wedi ysgrifennu at Mike Eames a Pip Reason yn gofyn am eu barn ar barhau fel aelodau cyfetholedig o'r pwyllgor. Roedd Mike Eames yn dymuno parhau fel aelod cyfetholedig, a Pip Reason yn dymuno tynnu'n ôl o'r rôl oherwydd ymrwymiadau eraill. **PENDERFYNWYD:** Cadarnhau penodiad Mike Eames yn aelod cyfetholedig yng nghyfarfod nesaf y cyngor llawn.
CT2607-07	**Gŵyl Werin 2026** Oherwydd natur sensitif yr wybodaeth ddiweddaraf i'w darparu gan y Cynghorydd Jarvis mewn perthynas â threfnu'r digwyddiad, cynigiwyd darparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn sesiwn gaeedig. **PENDERFYNWYD:** Gohirio'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Cynghorydd Jarvis nes bod y pwyllgor mewn 'sesiwn gaeedig' am 6.58pm. Mewn sesiwn gaeedig, rhoddodd y Cynghorydd Jarvis yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ŵyl werin i'w chynnal dros benwythnos 2–4 Hydref 2026. Cadarnhaodd y Cynghorydd Jarvis fod y bandiau wedi cael eu neilltuo.
CT2607-08	**Twristiaeth yn y Mwmbwls** Rhoddodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar gais grant Mumbles.Life a oedd wedi ei anelu at ddarparu gwefan i dwristiaid a thrigolion lleol, gyda'r bwriad o gynorthwyo busnesau lleol. Ar hyn o bryd roedd y Prif Swyddog yn adolygu barn y cynghorwyr cyn bwrw ymlaen â'r cais am grant. Anogodd y Cynghorydd Marshall bob cynghorydd i rannu sylwadau / barn ar y wefan arfaethedig i'r Prif Swyddog.

CT2607-09	**Ymwybyddiaeth o ganser y fron** Dywedodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, wrth y pwyllgor y cytunwyd i oleuadau o'r lliw priodol gael eu defnyddio y tu allan i Ganolfan Ostreme i nodi'r digwyddiad arfaethedig yn codi ymwybyddiaeth o ganser y fron.
CT2607-10	**Digwyddiad Tegan a Thost** Rhoddodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar ran y Prif Swyddog, gan eu hysbysu bod y digwyddiad Teganau a Thost yn parhau i dyfu o ran poblogrwydd. Soniodd y Cynghorydd Marshall hefyd am ddefnydd parhaus o'r Hwb ar gyfer cynnal digwyddiadau.
CT2607-11	**Ras Rafftiau'r RNLI a Gŵyl Caneuon Môr 2027** Roedd y Cynghorydd Jarvis wedi darparu adroddiad ar y ras rafftiau a'r ŵyl caneuon môr i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Yn ogystal, roedd y Cynghorydd Jarvis wedi cynnwys manylion am gantorion Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn ei adroddiad. Cyn amlinellu agweddau allweddol ar ei adroddiad, atgoffodd y Cynghorydd Jarvis y pwyllgor o'i fuddiant personol yn yr eitem ar yr agenda trwy ei aelodaeth o adran rhwyfo Clwb Hwylio'r Mwmbwls. Nodwyd bod y Cynghorydd Jarvis wedi bod mewn cysylltiad â'r RNLI. Ni fyddai dyddiad ar gyfer ras rafftiau 2027 yn cael ei bennu tan hydref 2026. Cynigiodd y Cynghorydd Jarvis y gallai digwyddiad caneuon môr ategu'r ras rafftiau, ac y gellid gwella'r ymgyrch codi arian o amgylch y ddau ddigwyddiad trwy ymdrechion Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Roedd hyn yn cynnwys darparu diddanwyr byw megis Captain's Cat a The Sailors. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed nifer o awgrymiadau gan gynnwys darparu bwyd môr a seidr. Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwdfrydig am y digwyddiadau, a chytunwyd y dylid anfon yr holl syniadau ymlaen at y Cynghorydd Jarvis a fyddai'n parhau i gysylltu â'r RNLI ac yn dod â'r syniadau ynghyd yng nghyfarfod mis Medi. Yn ogystal, byddai'r pwyllgor yn elwa o fewnbwn y Cynghorydd Thomas yn y cyfarfod nesaf. **CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i wahodd y Cynghorydd Thomas i'r cyfarfod ym mis Medi er mwyn iddo roi mewnbwn ar y digwyddiadau.

	PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd Jarvis yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf eto yng nghyfarfod mis Medi.
CT2607-12	**Digwyddiad Nadolig 2026 (yn cynnwys y goleuadau)** Rhoddodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar ran y Prif Swyddog, gan eu hysbysu bod cynlluniau'r Nadolig ar y gweill gyda Siôn Corn wedi ei neilltuo ar gyfer y groto Nadolig yng Nghanolfan Ostreme ar 19 Rhagfyr 2026. Byddai gwybodaeth bellach i ddod. Roedd tair o'r saith ysgol wedi ymateb mewn perthynas â chymryd rhan yn yr orymdaith lusernau. Byddai'r trên bach yn cael ei neilltuo o fewn yr wythnos nesaf. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb y Nadolig gan y pwyllgor, ni ellid ychwanegu unrhyw ddigwyddiadau pellach.
CT2607-13	**Penderfynu ar ddyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2027 a chael cymeradwyaeth i ddechrau cymryd archebion** Dywedodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, er nad oedd cyllideb Gŵyl y Mwmbwls 2027 wedi ei chymeradwyo eto, fod arian o fewn cyllideb Gŵyl y Mwmbwls 2026, er bod rhywfaint o'r cyllid hwn wedi ei ailddyrannu i'r ŵyl lesiant i'w chynnal ym Mharc Underhill ym mis Medi 2026. Er mai'r bwriad oedd cadarnhau dyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2027, roedd y cynghorwyr eisiau sicrhau nad oedd y digwyddiad yn gwrthdaro ag unrhyw ddigwyddiad arall i'w gynnal yn Abertawe. **PENDERFYNWYD:** Gohirio pennu dyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2027 tan y cyfarfod ym mis Medi, gan aros am gadarnhad na fyddai unrhyw ddyddiad arfaethedig yn gwrthdaro â digwyddiad mawr arall yn Abertawe.
CT2607-14	**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd** Yn dilyn darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigiwyd y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem fusnes ganlynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod. **PENDERFYNWYD:** Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod. Stopiwyd recordio'r cyfarfod am 6.58pm.
CT2607-15	**Digwyddiadau yn y dyfodol**

	Trafodwyd yr ŵyl werin i'w chynnal ym mis Hydref, fel yr amlinellwyd yn CT2607-07. Cystadleuaeth ffotograffiaeth (Naws y Mwmbwls) i'w chynnal yn 2026. Talodd y Cynghorydd Marshall deyrnged i Bonnie Tyler. Roedd yn gobeithio y byddai nifer dda yn bresennol yn ystod gorymdaith ei hangladd ar hyd Heol Newton ym mis Awst 2026. Ystyriwyd opsiynau i gofio Bonnie, ond y farn gyffredin ymhlith aelodau'r pwyllgor oedd y dylai cyfnod priodol o amser fynd heibio cyn cynnig unrhyw ymrwymiadau pendant.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.09pm

Cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 23 Medi 2026, am 2pm